1.0 TUDALEN ENWI'R POLISI

LLUNIWYD Y POLISI HWN YN UNOL AG EGWYDDORION Y DDEDDFWRIAETH HAWLIAU DYNOL, A CHYMERADWYIR EI DDATGELU I'R CYHOEDD AC EITHRIO LLE MAE NODYN A CHYFIAWNHAD I'R GWRTHWYNEB.

TEITL Y POLISI: Rhybuddio Oedolion sy'n Troseddu

CYFEIRNOD Y POLISI:

PERCHNOGAETH Y POLISI: Adran Gweinyddu Cyfiawnder

Perchennog Portffolio / Maes Busnes:

Adran Gyfrifol: Gweinyddu Cyfiawnder

Y Person Cyfrifol: Prif Arolygydd

Cysylltiad / gorgyffwrdd â pholisïau eraill: Polisi Troseddwyr Ifainc

DYDDIAD GWEITHREDU'R POLISI: 1af Ebrill 2006

AMLDER ADOLYGU ANGENRHEIDIOL
e.e. BOB CHWE MIS / BOB BLWYDDYN: Bob Blwyddyn

DYDDIAD ADOLYGIAD DIWETHAF Y POLISI: 01/04/06

DYDDIAD ADOLYGIAD NESAF Y POLISI: 31/03/07

2.0 DATGANIADAU / AMCANION Y POLISI

2.1 Egwyddorion a chwmpas y polisi

Mae Cylchlythyr 30/05 y Swyddfa Gartref yn rhoi cyfarwyddyd ar weithredu protocol rhybuddio oedolion. Lluniwyd y polisi hwn er mwyn amlinellu'r dulliau lleol o drin trosedd lefel isel gan droseddwyr sydd heb unrhyw gysylltiad, neu sydd â chysylltiad lefel isaf a chyfyngedig yn unig, â Phartneriaid y System Cyfiawnder Troseddol.

Bwriad y ddogfen hon yw cyfarwyddo personél yr heddlu ynghylch gweithredu'r grymoedd hyn, gan ystyried hawliau'r unigolyn. Mae'n cadw cydbwysedd rhwng defnydd y grymoedd hyn ar y naill law a hawliau unigolion eraill a lles y gymuned yn ei chyfanrwydd ar y llall.

2.2 Amcanion y polisi

Pwrpas y polisi hwn yw

- Darparu cyfarwyddyd ar ddefnyddio Rhybuddion i Oedolion i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol i rwystro a datrys troseddu
- Sicrhau mwy o gysondeb rhwng rhanbarthau yn eu defnydd o Rybuddion Syml ar gyfer oedolion sy'n troseddu.
- Amlinellu'r berthynas rhwng rhybuddion syml ar gyfer oedolion sy'n troseddu a dulliau eraill o'u trin
- Darparu cyfarwyddyd ar weinyddu rhybuddion syml
- Sicrhau fod rhybuddion syml i oedolion yn cael eu cofnodi'n gywir

Bydd yr Heddlu'n gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron i sicrhau cysondeb.

3.0 CYFLWYNIAD

3.1 Comisiynwyd y ddogfen hon gan Brif Swyddogion er mwyn rhoi cyfarwyddyd i'r rhanbarthau.

3.2 Mae'r ddogfen wedi'i seilio ar y cyfarwyddyd a gafwyd gan y Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol, ac a gynhwyswyd yng Nghylchlythyr 30/2005 y Swyddfa Gartref – Rhybuddio Oedolion sy'n Troseddu.

3.2 Cymelliadau / Ysgogiadau

Bwriad cyflwyno'r polisi hwn yw sicrhau cysondeb ar draws y rhanbarthau wrth rybuddio oedolion sy'n troseddu.

'Roedd y polisi blaenorol yn rhan o'r Polisi Troseddwyr Ifainc.

Mae Cylchlythyr 30/2005 y Swyddfa Gartref wedi newid arferion gweithredu'n ymwneud â rhybuddio troseddwyr. Mae'r polisi hwn yn disodli'r cyfarwyddyd a geir yn y Polisi Troseddwyr Ifainc ar drin oedolion sy'n troseddu

3.3 Y sail gyfreithiol ac amcanion dilys

Mae Rhybuddio Troseddwyr yn ddull anstatudol o'u trin. Amcanion dilys y broses rybuddio yw trin troseddau llai difrifol mewn ffordd gyflym a syml, i ailgyfeirio troseddwyr o'r llysoedd lle bo'n addas, ac i leihau tebygrwydd ail-droseddu.

Bydd cofnodi rhybuddion i oedolion yn gywir ac yn ddilys fel datrysiadau sy'n arwain at gosb yn helpu gwella hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol.

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â rhybuddio oedolion sy'n troseddu, ac felly gall yr erthyglau canlynol o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 fod yn berthnasol:-

Erthygl 5: hawl i ryddid a diogelwch y person
Erthygl 6: hawl i brawf teg
Erthygl 7: dim cosb y tu allan i'r gyfraith

4.0 GOBLYGIADAU'R POLISI

4.1 Goblygiadau ariannol / Gwerth Gorau

Goblygiad ariannol y polisi hwn yw bod unigolion yn cael eu hail-gyfeirio o'r Broses Cyfiawnder Troseddol, gan arbed arian o safbwynt prosesu troseddwyr, paratoi papurau achos, ac amser y llysoedd.

Nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol.

4.2 Adnoddau Dynol / Hyfforddiant

Mae'r polisi yn sicrhau cysondeb wrth fynd i'r afael â throsedd llai difrifol.

'Does fawr ddim o anghenion o safbwynt hyfforddiant.

Gellir hyrwyddo cyflwyniad y polisi trwy Orchmynion Arferol.

4.3 Amrywiaeth

Nid oes gan y polisi hwn botensial i effeithio'n anffafriol ar unrhyw grŵp penodol, naill ai o fewn y gwasanaeth heddlu neu ynteu yn y gymuned.

4.4 Cysylltiadau polisi mewnol

Mae'r polisi hwn yn gysylltiedig â'r Polisi Troseddwyr Ifainc.

4.5 Ymgynghori

Wrth lunio'r polisi hwn, ymgynghorwyd â'r bobl a grwpiau canlynol:

- Cymdeithas Prif Heddweision
- Cyfreithiwr yr Heddlu / Ymgynghorydd Cyfreithiol yr Heddlu
- Timoedd Rheoli'r Rhanbarthau
- Penaethiaid Adran
- Pennaeth Hyfforddiant
- Unedau Cefnogaeth y Rhanbarthau
- Gwasanaeth Erlyn y Goron

5.0 YSTYRIAETHAU / ARDYSTIAD HAWLIAU DYNOL

5.1 Archwilio ar gyfer ymyrraeth a chamwahaniaethu posib

5.1.1 Mae'r polisi hwn yn ymwneud â rhybuddio oedolion sy'n troseddu, ac felly gall yr erthyglau canlynol o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 fod yn berthnasol:-

- *Erthygl 5: hawl i ryddid a diogelwch y person*
- *Erthygl 6: hawl i brawf teg*
- *Erthygl 7: dim cosb y tu allan i'r gyfraith*

5.1.2 "Wrth weithredu'r polisi, ni fydd Heddlu Dyfed Powys yn camwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson ar sail rhyw, hil, lliw, iaith, crefydd, barn (boed yn farn wleidyddol neu'n farn ar unrhyw fater arall), tarddiad cenedlaethol neu gymdeithasol, eiddo, genedigaeth, neu unrhyw statws arall a ddiffinnir gan Erthygl 14, Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol)"

5.2 Egwyddorion Allweddol Hawliau Dynol

5.2.1 Mae amcanion dilys y polisi hwn ar gyfer ymyrryd â hawliau unigolyn wedi'u canfod a'u hystyried fel bo angen am y rhesymau canlynol:-

Diogelwch y Cyhoedd a/ neu Les Economaidd y wlad

Atal anhrefn a throseddu.

Gwarchod hawliau a rhyddid pobl eraill.

5.2.2 Mae'r polisi yn darparu cyfarwyddyd clir i staff er mwyn sefydlu:

- Sail gyfreithiol eu gweithredoedd

- Amcanion eu gweithredoedd
- A oes cyfiawnhad i'w gweithredoedd, ac a yw'r gweithredoedd yn gymesurol wrth geisio gwireddu'r amcan(ion)
- Yr angen i gofnodi'n glir y broses benderfynu a chanlyniadau'r gweithredoedd.

Ceir y sail gyfreithiol ar gyfer dal pobl, a'u trin ar ôl eu dal, yn PACE a'r codau ymarfer perthnasol.

5.3 Gwahaniaethu rhwng Polisi a Gweithdrefnau neu Gyfarwyddyd (Tacteg)

5.3.1 Nid oes dim tacteg yn y ddogfen bolisi.

5.4 Hawliau, Cyhoeddi, Archwilio ac Arolygu

5.4.1 Cyhoeddir y ddogfen hon, a bydd ar gael yn rhwydd i bob heddwas, pob aelod o staff yr Heddlu, a phob gwirfoddolwr o fewn Heddlu Dyfed Powys trwy Fewnrwyd yr Heddlu, neu, lle nad yw hynny ddim ar gael, ac wrth ddoethineb Penaethiaid Rhanbarthol / Penaethiaid Adran, trwy ei gylchredeg ar bapur.

Bydd y ddogfen ar gael i'r cyhoedd ar safwe Rhyngrwyd yr Heddlu, sef *www.dyfed-powys.pnn.police.uk* neu ar gais ysgrifenedig i Gydlynydd Polisi'r Heddlu.

Caiff unrhyw berson sy'n teimlo ei fod wedi cael cam oherwydd unrhyw fater a amlinellir yn y polisi hwn geisio unioni'r cam trwy Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Dyfed Powys mewn un o'r ddau ddull hwn:

O safbwynt cynnwys y polisi hwn, bydd unrhyw gwestiwn neu gŵyn yn cael ei drin yn unol â gweithdrefnau cyfarwyddo a rheoli Heddlu Dyfed Powys.

Bydd materion sy'n ymwneud ag ymddygiad penodol Heddweision yn cael eu trin yn unol â Rheoliadau Camymddygiad Heddweision a/ neu, lle bo'n addas, ymchwiliadau troseddol.

Wrth weithredu'i hawl yn unol â'r uchod, bydd gan yr unigolyn hawl i gyflwyno'i achos i Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Dyfed Powys, ac wrth wneud hynny, caiff geisio cyngor cyfreithiol.

Fe all y bydd gweithrediad y polisi hwn gan Heddweision Heddlu Dyfed Powys yn agored i adolygiadau mewnol ac allanol. Mae'r rhain yn cynnwys Arolygiaeth Heddlu Ei Mawrhydi.

6.0 CYFARWYDDYD / GWEITHDREFNAU

6.1 Asesiadau Risg ac ystyriaethau Iechyd A Diogelwch

Gwneir asesiad risg safonol gan Heddwas y Ddalfa ar bawb a gedwir o dan God C, Cod Ymarfer PACE, er mwyn sicrhau canfod risgiau iddyn nhw, i'r rhai a gyflogir gan yr heddlu, ac i eraill, mor fuan â phosib ac er mwyn gweithredu mesurau rheoli priodol.

6.2 Cyfarwyddyd a Gweithdrefnau

Dylai Heddweision bob amser allu cyfiawnhau defnyddio 'rhybudd' fel modd o drin achos ar sail gyfreithiol a gwrthrychol.

Dylai hyn fod yn gymesur ag amgylchiadau'r drosedd, yr effaith ar y dioddefwr, a hanes troseddol yr unigolyn.

Rhaid i weithredoedd heddweision fod yn gyfreithiol, rhesymol, angenrheidiol, cyfiawnadwy, ac yn gymesur â'r amgylchiadau.

Bydd yr heddwas hefyd yn cofnodi'r rhybudd ar gofnod y ddalfa ac ar ffurflen A66, gan nodi'r rhesymeg am y penderfyniad.

6.3 Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Unigol

Swyddogaeth yr heddwas sy'n gwneud yr ymchwiliad yw casglu tystiolaeth am euogrwydd y sawl a arestiwyd.

Swyddogaeth Rhingyll y Ddalfa neu'r Arolygydd sydd ar ddyletswydd yw penderfynu a yw rhybudd yn addas i'r unigolyn.

Os yw'n addas i drin yr unigolyn felly, swyddogaeth heddwas ar lefel Rhingyll neu'n uwch yw rhoi'r rhybudd.

Swyddogaeth yr heddwas sy'n ymchwilio'r achos yw hysbysu'r dioddefwr, a chwblhau a chyflwyno'r dogfennau angenrheidiol ynghylch y drosedd / troseddwr.

6.4 Protocolau Cysylltiedig, Ymarferion, neu Gytundebau Gwasanaeth gydag Asiantaethau Eraill

Rhaid i'r penderfyniad gydymffurfio â'r trefniadau Cynllun Cyhuddo Statudol gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron.

6.5 Gweinyddu

Bydd y swyddog adrodd yn llenwi Ffurflen A66, Rhybudd Syml i Oedolyn, a'i hanfon, gyda'r dogfennau cefnogol, i'r DSU cyn diwedd ei gyfnod ar ddyletswydd.

7.0 HYRWYDDO / DOSBARTHU

Hyrwyddir y polisi er mwyn sicrhau dealltwriaeth, ymwybyddiaeth, ymglymiad, cefnogaeth, ac ymrwymiad trwy:

Ei gyhoeddi mewn Gorchmynion Arferol
Ei gyhoeddi ar dudalen Polisïau'r Fewnrwyd
Ei gynnwys ar Dudalen Hafan yr Uned Cyfiawnder Troseddol

- Trwy wneud hyn, bydd pob aelod o staff yn cael ei hysbysu am, a gallu cael gafael ar, y polisi.

- Bydd y Polisi yn ddogfen gyhoeddus sydd yn agored i archwiliad y cyhoedd.

- Cynulleidfa gyntaf a chynulleidfa darged allweddol y polisi hwn yw'r holl Ringylliaid ac Arolygwyr y Ddalfa.

8.0 ADOLYGIAD MONITRO

8.1 Monitro

- Bydd yr angen am fonitro parhaol yn dibynnu ar newidiadau yng nghyfarwyddyd y Swyddfa Gartref neu yn y ddeddfwriaeth. Yn y cyfamser, bydd y polisi yn cael ei fonitro yn flynyddol.

8.2 Adolygiad

Cynhelir yr adolygiad ffurfiol nesaf ar 31ain Mawrth 2007, er mwyn ystyried:

- Ei effeithiolrwydd

- Newidiadau i'r ddeddfwriaeth / Cyfarwyddyd y Swyddfa Gartref

- Heriau i'r polisi

- Unrhyw aneffeithlonrwydd a ganfuwyd wrth weithredu'r polisi

ENW'R POLISI: **Rhybuddio Oedolion sy'n Troseddu**

Perchennog y Polisi: **ADRAN GWEINYDDU CYFIAWNDER**

Archwiliwyd gan:

Pwnc	**Cwestiwn**	**Ymateb**	**Tudalen neu gyfeirnod y paragraff**
ARCHWILIO AR GYFER YMYRRAETH A CHAM-WAHANIAETHU POSIB	A gafodd y polisi hwn (ac unrhyw rym, awdurdod neu gyfarwyddyd oddi fewn iddo) ei archwilio am ymyrraeth bosib gyda hawliau unigolyn?	DO	Gw. Para 5.1
	A gafodd y polisi hwn ei archwilio am unrhyw bosibilrwydd y gall gamwahaniaethu mewn perthynas â gweithredu neu sicrhau'r fath hawliau?	DO	Gw. Para. 5.1.2
EGWYDDORION ALLWEDDOL HAWLIAU DYNOL	A yw'r polisi yn cynnwys datganiad yn esbonio sail gyfreithiol y polisi (ac unrhyw rym, awdurdod neu gyfarwyddyd oddi fewn y polisi)?	YDY	Gw. Para. 3.3
EGWYDDORION ALLWEDDOL HAWLIAU DYNOL	A yw'r polisi yn nodi manylion o'r hyn y gellir ei ystyried yn nod dilys am unrhyw ymyrraeth bosib â hawliau unigolyn mewn canlyniad i weithredu'r polisi a'r grym, awdurdod a chyfarwyddyd ynddo?	YDY	Gw. Para. 3.3
EGWYDDORION ALLWEDDOL HAWLIAU DYNOL	A yw goruchwylwyr ac ymarferwyr yn cael eu hysbysu o'r angen i ddilyn proses benderfynu sydd wedi'i diffinio'n glir wrth ystyried yr holl wybodaeth ac wrth benderfynu beth i'w wneud?	YDYN	Gw. Para. 6.2
EGWYDDORION ALLWEDDOL HAWLIAU	A yw'n eglur yn y polisi beth yw'r safonau isaf o safbwynt cofnodi'r fath	YDY	Gw. Para. 6.2

DYNOL	benderfyniadau?		
EGWYDDORION ALLWEDDOL HAWLIAU DYNOL	A yw'r polisi yn rhoi canllawiau clir i reolwyr ac ymarferwyr ar sut y dylent sefydlu: - Sail gyfreithiol eu gweithredoedd Nod eu gweithredoedd (ni ellir sefydlu nod dilys ond trwy'r eithriadau a'r rhanddirymiadau a roddir yn y ddeddf)	 YDY YDY	 Gw. Para. 3.3 Gw. Para. 5.2.2
GWAHANIAETHU RHWNG POLISI A THACTEG	A yw'r polisi yn cynnwys tacteg yr heddlu, rhywbeth a fyddai'n ei gwneud hi'n amhosib cyhoeddi'r cynnwys)? (D.S.: oherwydd yr angen i gyhoeddi'r ddogfen, awgrymir na ddylid cynnwys deunydd tactegol oddi fewn dogfennau polisi am resymau diogelwch).	NAG YDY	
HAWLIAU, CYHOEDDI, ARCHWILIO AC AROLYGU	A yw'r polisi yn cynnwys datganiad o blaid datgelu i'r cyhoedd, neu os yw hyn yn anaddas, cyfiawnhad o unrhyw eithriad i'r rheol hon ar sail lles y cyhoedd / sail arall? A yw'r polisi yn cynnwys: - datganiad am argaeledd y polisi (sut y bwriedir ei gyhoeddi i'r cyhoedd). argymhelliad parthed dal i gynnal archwiliadau ac arolygu'r broses benderfynu?	YDY YDY YDY	Gw. Para 5.4.1 Gw. Para 5.4.1 Gw. Para 5.4.1
ARDYSTIAD CYDYMFFURFIO	A yw'r polisi yn cynnwys ardystiad ei fod wedi'i	YDY	

	ddrafftio yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dynol, a'r egwyddorion sydd yn sylfaen i'r ddeddf?		
ARCHWILIO CYFREITHIOL	A yw'r polisi wedi cael ei archwilio am gydymffurfiad â hawliau dynol?	YDY	
ADOLYGU'R POLISI	A oes gan y polisi ddyddiad adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn dal i gydymffurfio wrth i ddeddfwriaeth newydd ddod i rym ac yng ngoleuni achosion o dan ddeddfwriaeth hawliau dynol?	OES	

ARDYSTIAD CYD-YMFFURFIO

Fe ddrafftiwyd y polisi hwn yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dynol, ac mae wedi cael ei adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth gynorthwyol, ac fe ystyrir ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf honno a'r egwyddorion sydd yn sail iddi.

Llofnodwyd:

(Ymgynghorydd Cyfreithiol yr Heddlu)

Enw: Ms. S. Gainard

Adran: Gwasanaethau Cyfreithiol

ADOLYGIAD

Dylid adolygu'r polisi hwn erbyn:

Dyddiad: 1af Ebrill 2007

Polisi Rhybuddio Oedolion sy'n Troseddu.

Mae'r polisi hwn yn adlewyrchu'r Cyfarwyddyd Cenedlaethol a roddwyd i bob Heddlu gan y Swyddfa Gartref ynghylch Rhybuddio Oedolion sy'r Troseddu. (Cylchlythyr 30/2005)

1. Cyflwyniad

1.1 Gellir defnyddio Rhybudd Syml ar gyfer pob oedolyn ar gyfer **trosedd gyntaf lefel isel** os bydd Rhybudd Syml yn ddigonol er budd y cyhoedd.

1.2 Mewn achos o'r fath, bydd rhoi Rhybudd Syml ar gyfer trosedd gofnodadwy yn cael ei drin fel datrysiad sy'n arwain at gosb, a chofnodir fod y troseddwr wedi'i ddwyn o flaen ei well.

1.3 Mae defnyddio a chofnodi Rhybuddion Syml yn gywir yn gallu helpu cynyddu hyder y cyhoedd yn y System Cyfiawnder Troseddol, a helpu lleihau ail-droseddu.

1.4 Fel arfer, dylid rhoi Rhybuddion Syml yn unol â Chyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ar Gyhuddo, ac yn unol â Chylchlythyr 30/2005 y Swyddfa Gartref, sy'n anelu at hyrwyddo cysondeb rhwng Ardaloedd Cyfiawnder Troseddol yn eu defnydd o Rybuddion Syml.

1.5 Gan fod Rhybudd Syml yn ddull anstatudol o ddelio â throsedd, nid yw'r Swyddfa Gartref wedi gosod rheolau pendant ar yr amgylchiadau lle mae Rhybudd Syml yn addas. Fodd bynnag, mae'r cyfarwyddyd yn dweud y dylid defnyddio Rhybudd Syml yn bennaf lle:- -

Mae'n addas ar gyfer y drosedd a'r troseddwr, a

Mae'n debyg o fod yn effeithiol yn yr amgylchiadau.

1.6 Cofnodir defnydd moesegol Rhybudd Syml ar gyfer Trosedd a Gofnodwyd fel datrysiad yn arwain at gosb, ac fel troseddwr a ddygwyd o flaen ei well. Mae cofnodi Rhybuddion yn gywir yn gallu helpu cynyddu hyder y cyhoedd yn y System Cyfiawnder Troseddol, a helpu lleihau tebygrwydd ail-droseddu.

2. Amcanion Rhybudd Syml yw

2.1 I drin troseddau llai difrifol mewn modd cyflym a syml

2.2 I ail-gyfeirio troseddwyr o'r llysoedd troseddol lle bo'n addas

2.3 I leihau'r tebygrwydd o ail-droseddu

3 Meini prawf ar gyfer Rhybudd Syml

3.1 Wrth ystyried a yw Rhybudd Syml yn addas, rhaid i heddwas ystyried:-

- A yw'r person a ddrwgdybir yn 18 oed neu'n hŷn? (Os nad yw, ystyriwch gerydd a rhybudd terfynol).

- A oes digon o dystiolaeth o euogrwydd i gwrdd ag anghenion y Prawf Trothwy? (Am droseddau trais domestig neu drais personol gweler 10 isod)

- A yw'r drosedd yn dditiol yn unig? (Os yw, cyfeiriwch yr achos i Erlynydd y Goron)

- A yw'r person wedi cyfaddef mewn modd clir a dibynadwy, wedi'i gadarnhau gan dystiolaeth arall (naill ai ar lafar neu mewn ysgrifen)? Bydd cyfaddefiad i'r drosedd, wedi'i gadarnhau gan dystiolaeth arall a digon o ffeithiau tystiolaethol yn ddigonol i roi gobaith rhesymol o gael euogfarn. Gall y cadarnhad ddod o wybodaeth yn adroddiad y drosedd neu wybodaeth a geir yn ystod yr ymchwiliad. Ni fydd Rhybudd Syml yn addas os nad yw'r unigolyn wedi cyfaddef i'r drosedd mewn modd clir a dibynadwy (er enghraifft os bydd yn gwadu bwriad, neu os bydd amheuon am ei iechyd meddyliol neu ei allu deallusol, neu le mae amddiffyniad statudol yn cael ei gynnig).

3.2 Er mwyn creu cofnod y gellir ei archwilio o'r cyfaddefiad, rhaid cofnodi'r cyfaddefiad trwy unrhyw ddull sy'n cydymffurfio â PACE, sef:

- cyfweliad wedi'i recordio ar dâp,

- Cofnod o gyfaddefiad dan rybudd yn nodiadur yr heddwas, wedi'i arwyddo gan y person a ddrwgdybir fel cofnod cywir,

- Datganiad dan rybudd a wnaed gan y person a ddrwgdybir ac wedi'i arwyddo ganddo fel cofnod cywir,

- Cyfweliad cyfoes dan rybudd wedi'i arwyddo fel cofnod cywir gan y person a ddrwgdybir.

4 Y Dioddefwr

4.1 Cyn rhoi Rhybudd Syml, mae'n bwysig ceisio sefydlu:-

- Barn y dioddefwr am y drosedd (gweler isod am wybodaeth ar erlyniadau heb gefnogaeth)

- Natur unrhyw niwed neu golled, a'i arwyddocâd i amgylchiadau'r dioddefwr

- Natur unrhyw fygythiad parhaol gan y troseddwr

- A yw'r troseddwr wedi rhoi unrhyw fath o iawndal i'r dioddefwr.

4.2 ***Wrth geisio barn y dioddefwr, byddwch yn ofalus i sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r ffaith y bydd ei farn yn cael ei hystyried, ond ni fydd o reidrwydd yn penderfynu'r canlyniad, ac y bydd y penderfyniad terfynol wrth ddoethineb yr heddlu.***

4.3 Os penderfynir taw Rhybudd Syml yw'r ffordd fwyaf addas o drin y drosedd, dylid esbonio'r rhesymeg i'r dioddefwr, yn ogystal ag amlinellu'r goblygiadau i'r troseddwr o dderbyn Rhybudd Syml.

4.4 Mewn rhai achosion lle gall Rhybudd Syml fod yn addas, mae'n bosib y bydd angen erlyn beth bynnag er mwyn diogelu'r dioddefwr rhag y troseddwr a/ neu oherwydd natur ddifrifol y drosedd. **Lle mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithredu polisi rhagweithiol ynghylch rhai troseddau, mae'n bosib y bydd erlyniad yn mynd yn ei flaen hyd yn oed os nad yw'r dioddefwr yn cefnogi'r erlyniad. (Er enghraifft, os bydd cytundeb erlyn rhagweithiol ynghylch trais domestig yn bodoli, gall Rhingyll y Ddalfa geisio cyngor cyn-gyhuddo yn absenoldeb datganiad gan y dioddefwr).**

4.5 **Rhaid** hysbysu'r dioddefwr bob amser o'r canlyniad, yn unol â'r Cod Ymarfer Dioddefwyr. Lle rhoddir Rhybudd Syml, bydd yr heddwas sy'n archwilio'r drosedd yn gyfrifol am hysbysu'r dioddefwr o'r canlyniad.

5 Aflonyddu

5.1 Bydd Rhybudd Syml mewn achos aflonyddu (hiliol neu fel arall) yn golygu fod yr holl ymddygiad sy'n sail i'r Rhybudd yn annilys fel tystiolaeth mewn achos cwrs ymddygiad os bydd yr ymddygiad yn parhau wedyn. Yr unig ffordd o ddiogelu'r dioddefwr rhag y fath ymddygiad yn y dyfodol fyddai trwy gael gwaharddeb gwrth-aflonyddu mewn llys sifil. Oherwydd hyn, dylid ystyried barn dioddefwr aflonyddu'n llawn, a ni ddylid rhoi Rhybudd Syml oni fydd yr heddwas sy'n gwneud y penderfyniad yn hyderus na fydd yr aflonyddu'n parhau, ac ar ôl ymgynghori gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron. **Dylid erlyn pob achos o Aflonyddu Difrifolach.**

6 Ystyriaethau eraill

Dylid archwilio cofnodion lleol a chenedlaethol, megis CIS a PNC cyn rhoi Rhybudd Syml, er mwyn sicrhau fod unrhyw hanes troseddol y sawl a ddrwgdybir yn hysbys. Bydd hyn yn osgoi defnydd anaddas o Rybudd Syml.

6.2 os bydd y sawl a ddrwgdybir wedi derbyn Rhybudd Syml blaenorol, ni ddylid ystyried Rhybudd Syml eto **fel arfer**, oni bai fod:-

- y drosedd newydd heb unrhyw berthynas i'r un flaenorol, neu'n ddibwys ei natur, neu fod

- cyfnod o ddwy flwyddyn wedi mynd heibio ers unrhyw rybudd syml, cerydd, neu rybudd terfynol blaenorol.

6.3 RHAID i'r troseddwr fod yn hollol ymwybodol o oblygiadau derbyn Rhybudd Syml CYN iddo wneud, a rhaid iddo roi CYDSYNIAD GWYBODUS i'r fath ddull o weithredu.

7 Addasrwydd Rhybudd Syml

7.1 Dylai'r penderfyniad am addasrwydd Rhybudd Syml gael ei wneud gan heddwas o radd Rhingyll neu'n uwch na sydd ag unrhyw berthynas ag ymchwilio'r drosedd. Fel arfer, heddwas y ddalfa fydd hwn.

7.2 Unwaith fod yr heddwas sy'n gwneud y penderfyniad yn fodlon fod y meini prawf ar gyfer rhoi Rhybudd Syml wedi'u cyrraedd, dylai ystyried:-

- A yw Rhybudd Syml yn fodd addas o ddelio â'r achos, wrth ystyried y drosedd a'r troseddwr?

- A yw er budd y cyhoedd i roi Rhybudd Syml?

Gellir penderfynu beth sydd er budd y cyhoedd trwy ystyried:-

- A oes unrhyw ffactorau sy'n gwaethygu'r drosedd? Ac
- A oes unrhyw ffactorau sy'n lliniaru'r drosedd?

Dylai penderfyniadau ar erlyn gymryd i ystyriaeth y Matrics Difrifoldeb Cenedlaethol, sy'n eiddo i'r Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron ar y cyd trwy Faes Busnes y System Cyfiawnder Troseddol. Mae hyn yn cael ei ddiweddaru o dro i dro, ac mae ar gael ar Fas Data Cyfreithiol Cenedlaethol yr Heddlu.

7.3 Rhaid i'r heddwas sy'n gwneud y penderfyniad lenwi'r Ffurflen Proses Penderfynu Addasrwydd (A66a.) fel tystiolaeth i'w benderfyniad.

8 Cynnig y Rhybudd Syml

8.1 Ar ôl penderfynu fod hyn yn fodd addas o ddelio â'r achos, dylid cynnig Rhybudd Syml i'r sawl a ddrwgdybir.

8.2 **Rhaid** iddo ddeall

- Fod hyn yn gyfaddefiad euogrwydd.

- Fod digon o dystiolaeth i'w erlyn am y trosedd(au).

- Mai bwriad y Rhybudd Syml yw y bydd yn newid ei ymddygiad yn y dyfodol.

- Y bydd cofnod yn cael ei gadw o'r Rhybudd Syml, ac y gall hyn ddylanwadu ar unrhyw benderfyniad i'w erlyn yn y dyfodol os bydd yn dod i sylw'r heddlu eto.

- Gellir hysbysu llys o'r Rhybudd Syml mewn unrhyw achos yn y dyfodol.

- Cofnodir manylion y Rhybudd Syml, sydd yn ddull amgen o ddelio ag achos yn hytrach nag erlyn, ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu, a gellir datgelu hyn os bydd yn ceisio am rai mathau o waith neu hyfforddiant.

- Bydd y broses o roi'r rhybudd yn cynnwys cymryd DNA, Bysbrint, ac ôl esgid i'w cadw, ac i'w defnyddio mewn ymholiadau dyfaliadol.

- Os bydd y dioddefwr yn gofyn am enw a chyfeiriad y troseddwr, er mwyn cychwyn Achos Sifil, bydd y manylion yn cael eu datgelu.

8.3 Yn achos Trosedd Rhywiol, yn unol â'r rhestr yn Atodlen 3, Deddf Troseddau Rhywiol 2003, **RHAID** iddo ddeall y bydd yn 'droseddwr perthnasol', ac felly yn dod o dan ofynion hysbysu a chofrestru Rhan 2 o'r Ddeddf (Ychwanegir ei enw i'r Gofrestr Troseddwyr Rhywiol). **Rhaid llenwi ffurflenni C543, Cofrestru Troseddwr Rhywiol, sydd ar gael ar Hafan Gwefan PPU, cyn rhyddhau'r troseddwr.**

8.4. Ni ellir rhoi Rhybudd Syml oni bai fod y troseddwr yn fodlon ei dderbyn. Os bydd yn gwrthod y cynnig o Rybudd Syml, bydd raid defnyddio dull arall o ddelio â'r mater.

8.5. Dylid rhoi amser i'r sawl a ddrwgdybir ystyried y cynnig, a cheisio cyngor cyfreithiol os oes angen.

8.6. Efallai bydd Rhanbarthau am ystyried defnyddio Clinig Rhybuddio er mwyn hwyluso a chysoni'r broses.

8.7. Os nad oes penderfyniad terfynol ar sut i ddelio â'r achos, er enghraifft oherwydd nad yw'r troseddwr wedi cadarnhau ei fod yn fodlon derbyn Rhybudd Syml lle mae hynny'n addas, mae'n bosib y bydd angen mynnu i'r troseddwr ddychwelyd ar ddyddiad arall i dderbyn y Rhybudd Syml, neu i gael ei gyhuddo, fel bo'n addas.

9. Cyflwyno'r Rhybudd Syml

9.1. Yn dilyn cyfaddefiad clir a dibynadwy, ac ar ôl llenwi'r ffurflen cofnodi'r broses benderfynu gan ddangos fod Rhybudd Syml yn ddull addas o ddelio â'r achos, ac ar ôl i'r troseddwr gytuno i'r dull hwn o ddelio â'r achos, dylai'r Rhybudd Syml gael ei gyflwyno gan berson sydd â'r hyfforddiant priodol, os bydd y fath berson ar gael. Dylid ymgorffori agweddau cynadledda h.y. sicrhau fod y troseddwr yn gorfod wynebu goblygiadau'r ymddygiad troseddol a'i effaith ar y dioddefwr a/ neu'r gymuned.

9.2. Os nad oes heddwas gyda'r hyfforddiant priodol ar gael, ni ddylid oedi cyn rhyddhau'r troseddwr. Dan y fath amgylchiadau, caiff heddwas o radd Rhingyll neu'n uwch gyflwyno'r Rhybudd Syml.

9.3. Os ydym ni am fod yn effeithiol wrth atal ail-droseddu, ac os ydym wedi canfod risg y bydd y troseddwr yn ail-droseddu, mae'n hanfodol o bwysig nad yw'r troseddwr yn cael gadael yr orsaf heddlu heb ryw ymdrech i ddelio â'r ffactorau risg.

9.4. Gall y ffactorau sy'n dylanwadu ar y risg hwn gynnwys agweddau sefyllfa ariannol bersonol, cyflogaeth, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau eraill, a rheoli dicter. Os na wynebir y fath ffactorau, mae tebygrwydd o ail-droseddu.

9.5. Er mwyn i'r broses fod yn effeithiol, mae'n bwysig i'r troseddwr dderbyn:-

a) Fod y ffactor perthnasol yn bodoli
b) Fod angen delio â'r mater
c) Fod angen help wrth ddelio â'r mater

9.6. Nid oes gan y Gwasanaeth Heddlu mo'r adnoddau i ddelio â'r fath broblemau. Bydd angen felly i'r sawl sy'n cyflwyno'r Rhybudd Syml fod yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn lleol, boed ar sail statudol neu wirfoddol, a chyfeirio'r troseddwr atynt.

9.7. Ceir manylion am rai mudiadau o'r fath yn Atodiad N o Bolisi'r Ddalfa. Bydd Cymunedau a Phartneriaethau (CMRD) a Chydlynwyr y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn gallu darparu manylion ychwanegol.

9.8. Ar ôl cadarnhau'r ffactorau risg, ni fydd llawer o bwrpas gwneud dim mwy na rhoi manylion asiantaeth addas i'r troseddwr, gan ei fod yn annhebyg o gysylltu â'r asiantaeth ei hunan. Dull cadarnach o ddelio â'r ffactorau risg fyddai gwahodd y troseddwr i ddychwelyd i'r orsaf heddlu ar amser penodol, trwy gytundeb, er mwyn cwrdd â chynrychiolydd o'r asiantaeth berthnasol sy'n gallu darparu'r cymorth sydd ei angen. Noder: Fel arfer, mae'r Ddeddf Gwarchod Data yn gwahardd datgelu gwybodaeth gyfrinachol i drydydd parti heb gytundeb. Felly, dylid gwneud y trefniadau naill ai heb ddatgelu manylion y troseddwr, neu ynteu ar ôl cael cytundeb ysgrifenedig y troseddwr.

9.9. Ar ôl trefnu'r cyfarfod, cyflwyno'r bobl i'w gilydd ac ati, ni fydd angen mwy o fewnbwn gan yr heddlu.

9.10. Dylid cyflwyno Rhybudd Syml mewn gorsaf heddlu fel arfer. Fodd bynnag, lle bo'n addas, gellir eu cyflwyno mewn man arall e.e. cartref person sy'n hen neu'n agored i niwed, ym mhresenoldeb oedolyn addas.

9.11. Rhaid i'r troseddwr lofnodi'r ffurflen A66(b) i dderbyn Cynnig Rhybudd Syml, a chydnabod derbyn y Rhybudd Syml trwy lofnodi ffurflen A66(c).

9.12. Yn achos person, <u>na sydd wedi bod yn nalfa'r heddlu</u> am y drosedd, sy'n derbyn Rhybudd Syml, ac sydd heb roi bysbrint neu DNA yn ystod ymchwiliad yr achos, neu sydd wedi rhoi bysbrint, ond fod y bysbrint yn anghyflawn neu o safon annigonol i alluogi dadansoddi neu baru boddhaol, dylid mynnu iddynt fynd i orsaf heddlu, o fewn mis i ddyddiad y Rhybudd Syml, i roi bysbrint yn unol ag Adrannau 27 a 63(4) PACE. Bydd yr Adran Gweinyddu Cyfiawnder yn ei hysbysu o'r angen hwn, mewn ysgrifen.

9.13. Mae cofnodi cywir yn hanfodol er mwyn minimeiddio'r amlder o roi mwy nag un rhybudd i droseddwr. Rhaid cofnodi pob Rhybudd Syml ar system leol y ddalfa, a systemau gwybodaeth cenedlaethol.

9.14. Nid yw Rhybudd Syml yn fodd addas o ddelio â throsedd os bydd y troseddwr yn bwrw tymor mewn carchar am droseddau eraill, ac ni fydd yn cael ei ddefnyddio yn achos Troseddwr Cyson neu Flaenoriaeth neu Droseddwr Cyson Ifanc.

10. Erlyniad heb gefnogaeth y dioddefwr – Trais yn erbyn y person neu Drais Domestig yn unig.

10.1. Dylid rhoi ystyriaeth arbennig i ddioddefwyr trais personol neu drais domestig. Cyn gwneud y penderfyniad terfynol ar ddelio a'r fath droseddwyr, dylai'r heddwas

sy'n gwneud y penderfyniad sicrhau ei fod wedi ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael.

10.2. Fel arfer, os nad oes unrhyw agwedd o'r achos sy'n gwaethygu'r drosedd, yn unol â'r disgrifiad yn rheolau cyfri'r Swyddfa Gartref, ac os yw'r dioddefwr yn gwneud datganiad yn cadarnhau ffeithiau'r achos ond yn dweud nad yw'n cefnogi erlyn yr achos trwy'r llysoedd, fe all y drosedd fod yn addas ar gyfer Rhybudd Syml, **cyhyd â'i fod yn cwrdd â'r holl feini prawf eraill. (Paragraffau 13 a 45, Cylchlythyr 30/2005 y Swyddfa Gartref)**

10.3. Dylid bob amser gweithredu'n gadarnhaol, mewn modd sy'n gymesurol â'r amgylchiadau, yn achos trais domestig, er mwyn sicrhau diogelu a gwarchod y dioddefwr a'r plant, gan adael i'r System Cyfiawnder Troseddol ddelio â'r troseddwr.

10.4. Os bydd heddweision yn cael anhawster sicrhau cyhuddiad neu wŷs oherwydd nad yw'r dioddefwr eisiau erlyn, bydd Rhybudd Syml, yn hytrach na Dim Gweithred Bellach, yn fodd addas o ddelio â'r drosedd, **cyhyd â bod y sefyllfa'n cwrdd â'r holl feini prawf eraill**, hyd yn oed os oes gan y troseddwr euogfarn neu rybudd blaenorol a fyddai, fel arfer, yn ei eithrio o'r dewis hwn. (Paragraffau 36 a 47, Cylchlythyr 30/2005 y Swyddfa Gartref)

11. Erlyniad heb gefnogaeth y dioddefwr – troseddau eraill

11.1. Mewn amgylchiadau lle mae Rhybudd Syml neu Rybudd Ieuenctid wedi'i gyflwyno o'r blaen, yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ni ddylid ystyried Rhybudd Syml fel arfer, oni bai fod y drosedd yn ddibwys neu'n amherthnasol i'r Rhybudd blaenorol.

11.2. Os oes trosedd wedi'i chyflawni (ac eithrio trais yn erbyn y person neu drais domestig), ond mae'r dioddefwr yn gwrthod cefnogi erlyn, ***ac nid oes tystiolaeth gefnogol arall***, hysbysir y dioddefwr gan yr heddwas yn yr achos na chymerir unrhyw gamau ymhellach heb gefnogaeth ar gyfer erlyniad.

11.3. Mewn achos lle mae'r troseddwr wedi cyfaddef i'r drosedd, caeir yr achos yn unol â Rheolau Cyfri'r Swyddfa Gartref – datrysiad heb gosb.

11.4. Os na fydd y dioddefwr yn cefnogi erlyniad, ac mae'r troseddwr yn gwadu'r drosedd, ni ellir ystyried cae'r achos dan reolau'r Swyddfa Gartref oni bai fod tystiolaeth gefnogol annibynnol ar gael am euogrwydd y troseddwr.

12. Eithriadau i'r egwyddorion cyffredinol

12.1. Mae gan Ringylliaid y Ddalfa awdurdod i benderfynu ar y dull mwyaf addas o ddelio ag oedolion sy'n troseddu, yn unol â'r polisi hwn.

12.2. Os bydd y troseddwr yn hen neu'n fethedig, neu os bydd yn agored i risg am reswm arall, neu'n ddryslyd ei feddwl, rhaid i Ringyll y Ddalfa ystyried a fydd erlyn yn gwasanaethu budd y cyhoedd. Wrth wneud hynny, gall Rhingyll y Ddalfa benderfynu, yn unol â'r polisi hwn, y dylid defnyddio Rhybudd Syml yn hytrach nag erlyn. Y mwyaf hen neu fethedig yw'r troseddwr, y lleiaf tebyg ddylai erlyn fod. Rhaid i ffitrwydd i sefyll prawf fod yn ystyriaeth. Os gall straen erlyniad fod yn angheuol, neu os bydd y troseddwr yn dioddef o salwch corfforol difrifol, efallai na

fydd erlyn er budd y cyhoedd. Dylid delio â Throseddwyr gydag Anhwylder Meddyliol o dan brotocolau'r Heddlu, a'r trefniadau arbennig ar gyfer Troseddwyr gydag Anhwylder Meddyliol.

12.3. Dan y fath amgylchiadau, os bydd Rhingyll y Ddalfa yn gwneud penderfyniad sydd yn eithriad i brif egwyddorion y polisi hwn, rhaid iddo ymgynghori gyda heddwas o radd Arolygydd neu'n uwch, a cheisio cymeradwyaeth cyn cyflwyno'r Rhybudd Syml.

12.4. Pan roddir awdurdod, cyflwynir Rhybudd Syml yn unol â'r uchod, a nodir cydsyniad yr heddwas sy'n cymeradwyo'r penderfyniad ar y ffurflen A66.

13. Troseddau gan grŵp, a throseddau aml

13.1. Gall profiad ac amgylchiadau troseddwyr sy'n cyflawni troseddau mewn grŵp amrywio'n fawr, a gall natur eu rhan nhw yn y troseddau amrywio'n fawr hefyd. Mae cysondeb a chyfiawnder yn ystyriaethau pwysig wrth benderfynu sut i ddelio ag achos, ond rhaid ystyried pob troseddwr yn unigol, ac mae'n bosib cyfiawnhau dulliau gwahanol o ddelio â nhw. Wrth ystyried troseddau aml cysylltiedig, dylai'r penderfyniad i gyflwyno Rhybudd Syml neu i erlyn gael ei seilio ar y drosedd fwyaf difrifol.

14. **Dulliau cymysg o ddelio â'r troseddau**

14.1. Mae'n bosib defnyddio dulliau cymysg ble mae troseddwr wedi cyflawni nifer o droseddau anghysylltiedig fel rhan o'r un digwyddiad. Gan ddibynnu ar natur y drosedd, mae dewisiadau eraill ar gael hefyd, er enghraifft rhybudd ffurfiol am fod â chanabis yn ei feddiant neu Rybudd Cosb Sefydlog am drosedd gosb sefydlog. Er enghraifft, mae rhywun yn cael ei arestio am fod yn feddw ac yn afreolus, ac wrth iddo gael ei archwilio yn y ddalfa, ceir fod ganddo set fawr o allweddi car y gellir eu defnyddio i dorri i mewn i geir, a dwyn ohonynt. Os bydd y person yn cyfaddef yr oedd ganddo fwriad o ddwyn o geir, gellir ei arestio ar gyhuddiad o 'fod ag offer lladrata', a gellir rhoi Rhybudd Syml am y drosedd honno lle bo'n addas, a Rhybudd Cosb am y drosedd o fod yn Feddw ac Afreolus. Ni ddylid o reidrwydd trin Rhybudd Syml ar gofnod y troseddwr fel ataliad i gyflwyno Rhybudd Syml yn y fath sefyllfa, ar yr amod nad yw am drosedd debyg.

14.2. Dylid ystyried unrhyw benderfyniad i gyflwyno Rhybudd Syml fel elfen o ddull cymysg o ddelio â'r achos yng nghyd-destun Canllawiau'r Cyfarwyddydd. Fel gyda phob penderfyniad ar gyhuddo, unwaith bydd yr achos wedi'i basio i Wasanaeth Erlyn y Goron, bydd y penderfyniad ar ddelio gyda phob trosedd yn aros gyda'r gwasanaeth hwnnw, a rhaid cadw at ei benderfyniad.

A66(a)

Rhybudd Syml i Oedolyn – Ffurflen Broses Benderfynu

Cyfeirnod y Ddalfa	Rhanbarth
Cyfeirnod Ffeil DSU	OIC

Yr wyf wedi adolygu amgylchiadau'r drosedd (troseddau) sydd yn sail i ddal y person uchod yn y ddalfa. Mae'r person a ddelir wedi gwneud cyfaddefiad clir a dibynadwy ei fod wedi cyflawni'r drosedd (troseddau). Mae'r cyfaddefiad wedi'i gofnodi fel a ganlyn

DALIER SYLW: - Heb gyfaddefiad clir a dibynadwy, NI ELLIR cyflwyno rhybudd.
R v Comisiwn Heddlu Metropolitan ex parte Thompson 1997
RHAID i'r troseddwr gyfaddef i'r drosedd CYN y gellir ystyried neu gynnig rhybudd.

Y mae digon o dystiolaeth i gwrdd ag anghenion y Prawf Trothwy... ☐

Yr wyf wedi ystyried hanes blaenorol y person a ddelir... ☐

Nid oes ganddo unrhyw rybudd, cerydd neu rybudd terfynol blaenorol** ☐
NEU
cyflwynwyd y rhybudd, cerydd neu rybudd terfynol blaenorol mwy na dwy flynedd yn ôl** ☐

Nid oes ganddo unrhyw euogfarn llys blaenorol.....** ☐

***Dywed Cylchlythyr 30/2005 y Swyddfa Gartref, yn achos trais domestig a thrais yn erbyn y person YN UNIG, os na fydd y dioddefwr eisiau erlyn ond yn gwneud datganiad yn cadarnhau ffeithiau'r drosedd, gellir cyflwyno Rhybudd Syml er gwaetha'r nifer o euogfarnau neu rybuddion a roddwyd i'r troseddwr yn y gorffennol, os bydd gweithredu'n gadarnhaol er budd y cyhoedd, ac os bydd hyn yn cwrdd â phob agwedd arall o'r polisi. Dan y fath amgylchiadau, dylid ystyried Rhybudd Syml yn hytrach na 'Dim Gweithredu Pellach'.*

Yr wyf wedi cymryd barn y dioddefwr i ystyriaeth..... ☐
(Materion Iawndal a chefnogaeth ar gyfer erlyn?)

Nid yw'r drosedd yn un sy'n dditiol yn unig neu..... ☐
Mae'r drosedd yn un sy'n dditiol yn unig, ac mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi awdurdodi Rhybudd Syml ☐

Yr wyf wedi ystyried: -
Natur a maint unrhyw niwed neu golled,
Ei arwyddocad wrth ystyried amgylchiadau'r dioddefwr. ☐

Unrhyw agweddau sy'n gwaethygu'r drosedd
(Domestig, hiliol, homoffobig, dioddefwr sy'n agored i niwed) ☐

Unrhyw agweddau sy'n lliniaru'r drosedd
(Cynnig gwneud yn iawn am y drosedd, neu iawndal) ☐

Yr wyf i / Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi penderfynu fod Rhybudd Syml yn addas, er budd y cyhoedd, AC yn debyg o fod yn effeithiol yn yr achos penodol hwn os bydd y troseddwr yn deall arwyddocad, ac yn cydsynio i, y dull hwn o ddelio â'r achos.

Llofnodwyd.....
Printiwch Enw, Gradd, a Rhif .....

A66(b)

Cyfaddefiad Euogrwydd
&
Derbyn Cynnig Amodol Rhybudd Syml

Cyfeirnod y Ddalfa	Rhanbarth
Cyfeirnod Ffeil DSU	OIC

Enw:…….. Dyddiad Geni: .....
Cyfeiriad
……
……
…….
Yr wyf wedi cyfaddef i mi gyflawni'r drosedd /troseddau a restrir isod.
……
……
M.O.
……
……
…….
Deallaf fod digon o dystiolaeth i'm herlyn am y drosedd hon / troseddau hyn.

Deallaf y byddaf o bosib yn derbyn rhybudd ynghylch y materion hyn, ac mai bwriad y dull hwn o weithredu yw y byddaf yn newid f'ymddygiad yn y dyfodol.

Deallaf y bydd cofnod yn cael ei gadw o'r rhybudd hwn, ac y gall hyn ddylanwadu ar unrhyw benderfyniad i'm herlyn yn y dyfodol os byddaf yn dod i sylw'r heddlu eto.

Deallaf y gellir hysbysu llys o'r rhybudd hwn mewn unrhyw achos yn y dyfodol.

Deallaf y bydd manylion y Rhybudd Syml, sydd yn ddull amgen o ddelio ag achos yn hytrach nag erlyn, yn cael eu cofnodi ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu, a gellir datgelu hyn os byddaf yn ceisio am rai mathau o waith neu hyfforddiant.

Deallaf, os bydd y dioddefwr yn gofyn am fy enw a fy nghyfeiriad, er mwyn cychwyn Achos Sifil, bydd y manylion yn cael eu datgelu.

Deallaf y cymerir bysbrint, DNA, ac ôl esgid, ac y gall y samplau hynny gael eu defnyddio mewn ymchwiliad dyfaliadol.

Ar gyfer troseddau rhywiol yn unig
Deallaf y byddaf yn destun i ofynion hysbysu Deddf Troseddau Rhywiol 2003 o ddyddiad y Rhybudd Syml hwn, ac y bydd Ffurflen Gofrestru Troseddwr Rhywiol yn cael ei llenwi cyn i mi gael fy rhyddhau.

Yr wyf yn fodlon derbyn Rhybudd Syml dan yr amgylchiadau hyn.

Llofnodwyd. ……. ac Oedolyn Addas (os oes angen). …….
Dyddiad ……

A66(c)

Cyflwyno Rhybudd Syml

Cyfeirnod y Ddalfa	Rhanbarth
Cyfeirnod Ffeil DSU	OIC

Enw:…….. Dyddiad Geni: .....
Cyfeiriad
……
……
…….
Ar (dyddiad)
……
cyflwynais Rybudd Syml i'r person uchod am y drosedd ganlynol / troseddau canlynol

M.O.
……
……..
Llofnodwyd (Heddwas sy'n cyflwyno'r rhybudd)
.....

Printiwch Enw, Gradd, a Rhif .....

Dyddiad ……..

Yr wyf yn cydnabod derbyn Rhybudd Syml am y troseddau uchod

Llofnodwyd …… Y sawl sy'n derbyn y Rhybudd Syml, a'r oedolyn addas os oes angen.

Gwaith ……. Cyfeiriad Gwaith ……..

Dyddiad.....

Cyfrifoldeb yr OIC yw hysbysu'r dioddefwr o'r canlyniad yn unol â Chod Ymarfer Dioddefwyr

Gwybodaeth ychwanegol ar gyfer y DSU

						C
						C
						C
						C
						C
						C

Rhowch Gyfeirnod y Drosedd sy'n destun y rhybudd

Sicrhewch fod ystadegau'r Pencadlys yn cofnodi datrysiad y drosedd / troseddau

Yn ymwneud â chyffuriau? Y/N
Hysbyswyd Adran Ystadegau'r Pencadlys DO/NADDO

Cyfeirnod Tâp			
Cyfeirnod(au) Eiddo			

A66(d) Safonau Isaf Ffeil Tystiolaeth

Anfonir pob ffeil Rhybudd Syml i DSU y Rhanbarth i'w hadolygu a'i chadw.

Er mwyn sicrhau moeseg a chywirdeb y broses Rhybuddio, dyma'r safon isaf y dystiolaeth a ddisgwylir mewn ffeil Rhybudd Syml.

1. Copi o'r Gŵyn am y drosedd
2. Tystiolaeth glir o gyfaddefiad
3. A66 gan gynnwys tystiolaeth fod safbwynt y dioddefwr wedi'i ystyried, rhesymeg y penderfyniad, a thystiolaeth derbyn a chyflwyno'r rhybudd.

Am faint y bydd y Rhybudd Syml yn cael ei gofnodi?

Cedwir cofnod o arestiad / gwŷs, a'r ffaith fod y drosedd wedi'i datrys trwy gerydd / rhybudd terfynol / rhybudd ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu er mwyn galluogi'r heddlu i ganfod troseddwr posib o fysbrint neu DNA ar safle unrhyw drosedd.

Nid yw'r cyfarwyddyd blaenorol, sef bod y cerydd / rhybudd terfynol/ rhybudd yn cael ei ddileu ar ôl pum mlynedd ddim yn ddilys bellach.

Dylai heddweision sydd â'r cyfrifoldeb o gyflwyno cerydd / rhybudd terfynol/ rhybudd hysbysu'r troseddwr honedig y bydd y cofnod yn cael ei gadw at bwrpasau'r heddlu, ac y gellir ei ddatgelu os derbynnir cais am ddatgeliad at bwrpasau gwaith.

Diogelu a Gwarchod Data

Ni chaiff yr wybodaeth ei gweld, ei defnyddio, neu ei datgelu ond gan bobl awdurdodedig wrth gyflawni dyletswyddau'r heddlu. Wrth ddarparu, rheoli, trosglwyddo, defnyddio, cadw, a dinistrio (ymhen hir a hwyr) yr wybodaeth, mae arnoch gyfrifoldeb personol i gadw'r wybodaeth yn ddiogel yn unol â Pholisïau a Gweithdrefnau'r Heddlu.